Strategaeth 2019 – 2024

A. Cyflwyniad

Yn y ddogfen hon ceir strategaeth drosfwaol ar gyfer Cletwr am y pum mlynedd nesaf. Y nod yw darparu ffocws a chyfeiriad i symud y busnes ymlaen mewn ffordd drefnus.

Mae wedi tyfu allan o'r Cynllun Busnes manwl blaenorol a oedd yn darparu strwythur ar gyfer diffinio syniadau cychwynnol er mwyn gallu ceisio am arian.

Nid yw'r ddogfen hon yn ceisio ailadrodd manylder y cynllun yna ar gyfer cyllidwyr posibl: gall unrhywun sydd am weld proffeil cymunedol manwl edrych ar y ddogfen flaenorol, sydd ar gael yn yr adran Cwmni/Company ar y wefan.

Datblygwyd y cynllun hwn yn dilyn trafodaethau amrywiol ymysg y Bwrdd ac efo unigolion, staff, gwirfoddolwyr a chwsmeriaid dros y deuddeg mis diwethaf am yr hyn yr hoffent weld yn digwydd ac sut y dylai'r busnes ddatblygu.

Cafwyd digonedd o syniadau amrywiol ond, o ystyried bydd natur y Bwrdd gwirfoddol a'r staff yn debygol o newid, mae'n bwysig bod gan y busnes syniad clir am y cyfeiriad i'w ddilyn, er mwyn sicrhau parhad yr amcan a'r ethos. Mae hyn yn ein galluogi i flaenoriaethu ein hadnoddau (amser, arian a phobl) yn wyneb gymaint o ofynion ac i gyfathrebu y cyfeiriad yna i'n staff ac i'r gymuned.

B. Cyd-destyn cyfredol a throsolwg

➔ Mae Cletwr yn gwmni nid-er-elw a sefydlwyd yn 2012 er mwyn ail-agor y siop a chaffi mewn dwylo preifat a oedd wedi bod ar gau am dair mlynedd cyn hynny ac er mwyn ail-gyflwyno ac adfywio gwasanaethau lleol.

Dechreuodd fasnachu yn 2013 ac ers hynny, gyda chymorth grantiau gan wahanol gyrff cyllido (Llywodraeth Cymru, Yr Undeb Ewropeaidd, Y Loteri Fawr, Ashley Foundation a Santander) mae'r cwmni wedi adeiladu siop a chaffi newydd sydd wedi ennill gwobrau a mae'n cynnig ystod eang o wasanaethau, digwyddiadau a gweithgareddau.

Ni ellid fod wedi cyflawni dim o hyn heb gefnogaeth ymroddedig a sylweddol y gymuned a gwirfoddolwyr i ymgymryd ag ystod eang o dasgiau. Rydym hefyd yn ffodus i gael tîm o staff ymroddedig sy'n cyfoethogi gwaith Cletwr mewn modd amhrisiadwy.

Seilir ein amcanion yn fras ar Erthyglau'r Cwmni:

> ***"amcanion y cwmni yw darparu siop gymunedol a chyfleusterau eraill er budd trigolion Llangynfelyn yn ogystal ag ymwelwyr â'r ardal, fel menter gymdeithasol".***

Dros y blynyddoedd diwethaf mae ein gweledigaeth ar gyfer y gymuned ac agweddau amgylcheddol ein prosiect wedi dyfnhau a chyflawnwyd llawer. Mae twf y weledigeth hon yn dibynnu fodd bynnag ar gynaliadwyedd y busnes a mae angen i hyn fod wrth wraidd unrhyw ddatblygiadau pellach.

Rheolaeth

Rheolir Cletwr gan Fwrdd o Gyfarwydddwyr gwirfoddol o wahanol gefndiroedd sy'n cynnig ystod a dyfnder o brofiadau i'r cwmni. Fel arfer maent yn cwrdd yn fisol (heblaw ym misoedd Awst a Rhagfyr) a maent yn cyfathrebu'n gyson drwy ebost. Mae cyfarwyddwyr unigol hefyd yn cwrdd yn anffurfiol gyda'r Rheolwr Busnes ac yn gwneud rhai sifftiau yn y siop neu'r caffi.

- ➔ Mae Rheolwr Busnes yn rhedeg y siop a'r caffi ac yn cymryd cyfrifoldeb am y busnes yn ei gyfanrwydd. Mae hi yn adrodd yn ôl i'r Bwrdd. Mae Rheolwr Cynorthwyol yn gyfrifol am Farchnata, a Chogydd yn gyfrifol am y gegin.
- ➔ Fe'u cefnogir gan dîm o staff sy'n cynnwys 12 oedolyn a 5 o bobl ifanc dros 16, a 6 o dan 16.

Fe adolygwyd y strwythur staffio a'r modd o weithredu eleni o ganlyniad i'r twf sylweddol yn y galwadau ar y busnes ers symud i mewn i'r adeilad newydd ym mis Medi 2017. Mae atyniad yr adeilad newydd a'r lefel o brysurdeb yn y caffi /siop wedi bod yn llethol ar adegau a mae'r strwythur rheoli newydd yn rhan o'r cynllun i warchod staff a gwirfoddolwyr.

Gwirfoddolwyr

Yn ogystal â'r staff mae gennym 59 o wirfoddolwyr sy'n gweithio sifftiau yn y siop, gwneud gwaith blaen tŷ yn y caffi neu yn y gegin, edrych ar ôl yr ardd, trwsio pethau, helpu gyda digwyddiadau, rhedeg y llyfrgell Gymraeg a'r clwb tanwydd, cynnig cyngor ar faterion amgylcheddol – mae'r rhestr yn faith.

Mae rhai unigolion yn gwirfoddoli yn rheolaidd ac eraill yn achlysurol, pan mae nhw'n gallu. Heb y gwirfoddolwyr ni allai'r busnes gynnig y gwasanaethau a'r cynhyrchion lleol amrywiol sydd ar gael, a byddai'r elfen gymunedol yn wannach o lawer. Mae hyn hefyd yn rhoi mwy o gyfrifoldeb ar y staff, sy'n gorfod dod i nabod criw amrywiol o bobl, rheoli disgwyliadau, sicrhau cynhwysoldeb ymysg y gwirfoddolwyr, hyfforddi unigolion, a chefnogi pobl ifanc a gwirfoddolwyr gydag anghenion arbennig.

- ➔ Mae gwirfoddolwyr yn cyfrannu tua 5700 o oriau, sy'n werth o gwmpas £51,300.

Cyllid

Goruchwylir y sefyllfa ariannol gan y Trysorydd, sy'n Gyfarwyddwr ar y Bwrdd. Fe'i cynorthwyir gan gyfrifydd a'r Rheolwr Busnes. Ein cyfrifyddion ydy Hobbs Accounting Services, sy'n gwirio ein cyfrifon bob blwyddyn ar gyfer yr adroddiad i Companies House.

Ers 2012 mae trosiant wedi codi i £530k. Ar ôl talu costau uniongyrchol, cyflogau, costau cyffredinol a threuliau eraill, y nod yw gadael elw bychan.

➔ Ail-fuddsoddir unrhyw elw mewn gweithgareddau cymunedol a/neu fe'i defnyddir i gefnogi mwy o gyfleoedd gwaith yn y gymuned.

Mae grantiau wedi eu defnyddio ar gyfer amcanion penodedig fel gwaith adeiladu mawr newydd ac eitemau cyfalaf. Rydym wedi derbyn rhai grantiau refeniw ar gyfer pethau arbennig fel datblygu digwyddiadau a gweithgareddau eraill. Nid oes gennym fwy o gyllid grant nawr (heblaw am un grant fach oddi wrth Gronfa Treftadaeth y Loteri ar gyfer y Storifa a fydd yn barod yn 2020).

Darpariaeth siop a chaffi

O'r cychwyn cyntaf, ethos y cwmni oedd i fod mor eco-gyfeillgar â phosibl ac i ddatblygu natur leol y busnes drwy ddefnyddio cyflenwyr lleol a darparu swyddi i bobl leol ble'n bosibl.

➔ Ein strategaeth brynu yw
- ✓ cadw'r cadwyni cyflenwi cyn fyrred â phosibl, prynu bwyd yn lleol yn y lle cyntaf, o'r ardal ehangach, ac yna o Gymru gyfan fel blaenoriaeth
- ✓ stocio eitemau cyffredin am brisiau fforddiadwy
- ✓ cynnig cynnyrch o safon a defnyddio cyn lleied o ddefnydd pacio â phosibl
- ✓ ymateb i geisiadau, e.e. am gynhyrchion arbenigol fel rhai fegan, cynnyrch heb laeth, cynnyrch organig
- ✓ cynnig archebu mewn llwyth i unigolion
- ✓ rheoli'r berthynas gyda'n cyflenwyr mewn ffordd bositif.

Tra bod yr egwyddorion hyn yn cynnal ein hethos mae canlyniadau ariannol iddynt. Er enghraifft, golyga'r ffaith bod gennym tua 70 o gyflenwyr lleol gostau gweinyddu uwch wrth brosesu archebion ac anfonebau, ac amser gwirfoddolwyr yn dadbacio nwyddau, llenwi silffoedd, a.y.y.b.

Mae'r caffi yn gweithio ar yr un egwyddorion, yn cynnig bwyd fforddadwy, cynnyrch cartref organig fel arfer ble mae hyn yn ymarferol, a defnyddio cyflenwyr lleol neu Gymreig. Mae'r math o fwydlen yn adlewyrchu gofynion y cwsmer, e.e. cacennau fegan, brecwast, a.y.y.b. Hyrwyddir coffi Cymreig blaen tŷ, a mae gwirfoddolwyr yn helpu i bobi cacennau a gwneud jam a chatwad. Gweithiwn yn galed i gynhyrchu cyn lleied o wastraff â phosibl.

Cyfathrebu a hysbysrwydd

Mae'n holl-bwysig ein bod yn cadw mewn cysylltiad gyda'n cymuned ac yn ymateb i sylwadau a cheisiadau yn addas. Cynhelir cyfarfodydd staff a nosweithiau gwirfoddolwyr yn rheolaidd; gofynnwn am adborth yn yr adeilad ar ffurflenni argymhellion ac yn y llyfr sylwadau.

Rydym yn defnyddio amryw o'r cyfryngau cymdeithasol, e.e. Facebook, Youtube, Instagram, Trydar, a lansiwyd gwefan newydd yn 2018. Anfonir ebyst yn wythnosol ac yn fisol at wirfoddolwyr a chefnogwyr.

➔ Mae ethos Cletwr ei hun yn agored a chyfeillgar a chroesawn awgrymiadau.

Cyhoeddir adroddiadau yn rheolaidd mewn newyddlenni lleol (e.e. Papur Pawb).

Rydym wedi derbyn amryw o wobrwyon sydd hefyd yn help i hysbysebu ein gwasanaethau (Atodiad 1). Derbyniwn ymholiadau yn aml gan fudiadau eraill sy'n edrych i ddatblygu siop neu wasanaeth gymunedol.

Gweithgareddau cymunedol a gwasanaethau cefnogol

Mae ail-agor y caffi a'r siop wedi golygu nid yn unig gallu prynu neges yn lleol a chael lle i gael cinio neu goffi, ond hefyd wedi arwain at ddatblygiad cymuned sydd wir yn gynhwysol. Rydym yn cyffwrdd â llawer o bobl a rydym yn gymuned sy'n rhannu sgiliau a gweithgareddau, ble mae cymdogion nawr yn nabod ei gilydd. Mae'r gweithgareddau a'r digwyddiadau yn cyfoethogi eu bywydau ac yn lleihau teimladau o unigrwydd ac ynysigrwydd cymdeithasol.

Ymysg y digwyddiadau a gweithgareddau rydym wedi eu cynnig mae: nosweithiau cerddorol, teithiau natur, grwpiau rhedeg, edrych ar ôl eich meddwl, ioga, arddangosfeydd celf a thecstiliau, llyfrgell gonestrwydd llyfrau Cymraeg, grwpiau sgwrsio, lansiadau llyfrau, sgiliau TG, clwb tanwydd, garddio, gweithgareddau amgylcheddol, darparu pwynt gwefru ar gyfer ceir trydan … ac yn y blaen. Defnyddir yr adeilad hefyd gan grwpiau allanol, e.e. Gweu a Chlonc, Grwp rhedeg, Dal Ati.

Hefyd darparwn wybodaeth am wasanaethau sy'n cynnig cefnogaeth a chyngor ac yn aml rydym yn ddolen gyswllt ac yn gallu cael hyd i 'rywun sy'n gallu…' helpu person mewn oed i ddod i lawr staer; delifro papur newydd a neges i rywun sâl; cysylltu pobl sydd â diddordeb mewn prosiectau tebyg; ac yn y blaen. Mae'r adborth yn awgrymu bod y pethau yma i gyd wedi rhoi hyder a sgiliau i unigolion a wedi creu cyfeillgarwch.

➔ Rydym wedi ymrwymo i gynnal swydd i drefnu ein digwyddiadau amrywiol.

C. Y weledigaeth wreiddiol a'r amcanion

Yn ôl y Cynllun Busnes 2012-19 (a adolygwyd 2016) dyma werthoedd a gweledigaeth Cletwr:

- ✓ Bydd Cletwr yn darparu gwasanaeth arbennig i bobl leol ac ymwelwyr;
- ✓ Bydd Cletwr yn datblygu fel hwb cymunedol, yn cynnig ystod o wasanaethau cymdeithasol, diwylliannol a chefnogol sy'n hanfodol i gynnal cymuned wledig;
- ✓ Byddwn yn cynnig gofod ar gyfer cyfleusterau digidol a gwasanaethau gan asiantaethau cefnogol sy'n anelu at fynd i'r afael â phroblemau ynysigrwydd a thlodi gwledig;
- ✓ Byddwn yn cefnogi cyflogi cydlynydd fydd yn gweithio fel hwylusydd, yn adnabod anghenion y gymuned ac yn cyfeirio unigolion tuag at y partneriaid sy'n cynnig cyngor;
- ✓ Bydd y siop yn parhau i fod yn gyfleuster gyda stoc dda o nwyddau ac yn cael ei defnyddio'n aml er mwyn rhoi hwb i economi a chymdeithas y plwyf;
- ✓ Parhawn i werthu nwyddau cyffredin fforddadwy ond hefyd cynnyrch lleol, gan hybu cynhyrchwyr lleol;
- ✓ Darparwn gaffi mwy effeithlon, wedi ei chynllunio'n well, yn gweini bwyd syml o ansawdd uchel;
- ✓ Cynigiwn gyfleusterau ar gyfer cyfarfodydd a digwyddiadau a rhaglen lawn ac amrywiol o ddigwyddiadau cymdeithasol, gan gynnwys dosbarthiadau Cymraeg, gweithdai, digwyddiadau bwyd;
- ✓ Bydd yr adeilad newydd yn 'borth' i ymwelwyr i Geredigion, yn darparu cyflwyniad i dreftadaeth y sir, a bydd yn ganolfan gwybodaeth ar gyfer Llwybr Arfordir Cymru;
- ✓ Bydd yn fusnes gyda hunaniaeth Gymreig/Gymraeg gref a bydd yn gweithredu yn unol â safon uchel amgylcheddol.

Rydym yn falch i ddweud bod llawer o'r weledigaeth wreiddiol wedi ei chyflawni, ond mae angen ei chynnal: darpara lasbrint sydd dal yn berthnasol ar gyfer Cletwr a mae'r amcanion hyn yn parhau'n fyw yn ein strategaeth newydd.

D. Strategaeth sy'n datblygu

1. Cyllid

Ein prif amcan ydy sicrhau ein bod yn cynnig busnes sy'n llwyddiannus yn ariannol a sy'n ennill digon o arian i gynnal ein hamcanion a'n huchelgeisiau. Felly mae'n rhaid i'n penderfyniadau am yr hyn y gallwn ei gefnogi o fewn y gymuned fod o fewn cyd-destun cynaliadwyedd. Rydym yn monitro ein costau yn ofalus ac yn eu hadolygu yn rheolaidd.

➔ Rydym yn falch i fod wedi ymrwymo i dalu Cyflog Byw Go lawn i'n staff.

Rydym hefyd wedi penderfynu cadw arian wrth gefn (fel cronfa rhag raid) sy'n cyfateb i dua 5% o'r trosiant. Rydym yn falch bod y busnes mor brysur yn yr haf ond mae angen rheolaeth lem er mwyn sicrhau bod cydbwysedd rhwng costau ac incwm.

2. Cyfnerthiad

Mae busnes Cletwr wedi tyfu'n sylweddol dros y 5 mlynedd diwethaf a nawr mae consensws cryf bod angen i ni ffocysu ar gynnal a chyfnerthu ein safonau uchel presennol yn hytrach nag edrych i ehangu.

➔ Dros y pum mlynedd nesaf bwriadwn barhau i ddysgu am y ffyrdd gorau o gynnal ein sefyllfa ariannol, adnoddau a phobl.

Rydym eisoes yn cynllunio ar gyfer mynd i'r afael â'r galw a rydym yn monitro prosesau a chanlyniadau er mwyn parhau i fod yn gynaliadwy ac i reoli'r disgwyliadau a'r pwysau ar staff a gwirfoddolwyr. Mae arnom eisiau gwneud yr hyn yr ydym yn ei wneud yn dda a nid ceisio mynd heibio i gapasiti'r cwmni.

3. Cwblhau a chynnnal y prosiect adeiladu

Mae ein hadeilad newydd wedi bod yn weithredol ers dwy flynedd a rydym wedi delio gyda thrafferthion torri dannedd cynnar. Nawr y nod yw ei gynnal i safon uchel, ei gadw yn lân a ffres.

➔ Dros y 12-18 mis nesaf bwriadwn gwblhau camau olaf yr adeiladu, cwblhau'r tirlunio, gosod yr Hwb Treftadaeth a Gwybodaeth, Caban ac arwyneb addas y tu ôl i'r adeilad.

4. Proffesiynoli a datblygu sgiliau

Dymunwn broffesiynoli rheolaeth y cwmni ymhellach, drwy sefydlu polisïau a phrosesau er mwyn sicrhau cysondeb wrth wneud penderfyniadau, gweithrediad llyfn y busnes ac i gefnogi penderfyniadau y Bwrdd a'r rheolwyr yn y dyfodol. Fel rhan o'n nod o broffesiynoli y busnes byddwn yn diweddaru neu greu polisïau, yn enwedig ym maes Adnoddau Dynol, fel bod gan y staff gytundebau clir.

➔ Anelwn at sicrhau bod gan y staff a'r gwirfoddolwyr, gan gynnwys aelodau'r Bwrdd, fynediad i ddatblygiad broffesiynol sy'n berthnasol iddynt hwy ac i'r cwmni.

Dymunwn gyflwyno prosesau ymsefydlu newydd yn enwedig ar gyfer gwirfoddolwyr ac aelodau'r Bwrdd. Mae'n bwysig cynnal ymrwymiad ein pobl ifanc a'r profiad a'r hyfforddiant y gallwn eu cynnig iddynt.

5. Cyfathrebu

➔ Ymdrechwn i gyfathrebu yn rhwydd ac yn glir gyda'r gymuned a mae'r ddogfen hon yn rhan o'r broses honno.

Mae'r wefan newydd yn gweithio'n dda a'r bwriad yw ei datblygu er mwyn cynnwys linciau i wybodaeth am y cwmni. Byddwn yn datblygu polisi cyfathrebu fel canllaw mewnol ac ar gyfer gwybodaeth allanol er mwyn sicrhau bod ein negeseuon yn glir ac yn ffeithiol gywir.

6. Egwyddorion amgylcheddol

➔ Gyda mwy o ymwybyddiaeth o a ffocws ar yr amgylchedd mae ein hagwedd amgylcheddol wedi dod yn fwy arwyddocaol wrth i ni wneud penderfyniadau yng ngolau eu heffaith ar yr amgylchedd.

Yn aml golyga hyn act falansio anodd rhwng ethos a chost. Ble mae hyn yn codi fe wneir penderfyniadau ym mhob achos unigol gan y Bwrdd, gan ddefnyddio ymchwil y staff ac arbenigedd leol pan fo angen.

7. Egwyddor ariannu ein hunan

Rydym yn ymwybodol o'r cyfanswm a ddyfarnwyd i ni mewn grantiau. Roedd y rhan fwyaf o'r arian hwn ar gyfer yr adeilad newydd a mae wedi ei ddefnyddio a mae adroddiad wedi ei gyflwyno, ond mae dau gyllidydd (Ashley Foundation a Santander) wedi dyfarnu grantiau bychain er mwyn ein galluogi i gyflogi cydlynydd i drefnu digwyddiadau a gweithgareddau. Rydym wedi ariannu y swydd hon ein hunan am y 12 mis diwethaf a bwriadwn barhau gyda hynny. Mae ysgrifennu ceisiadau grant yn broses lafurus sy'n cymryd llawer o amser.

➔ Ni fwriadwn gyflwyno unrhyw gais arall am arian onibai ei fod:
✓ yn ychwanegol i'n rhaglen graidd
✓ bod gennym y gofod, y bobl, yr amser a'r egni i ymgymryd â'r gwaith.

8. Datblygu cefnogaeth i'r gymuned

Tra'r ydym yn cynnig ystod eang o weithgareddau a gwasanaethau, un agwedd o'r genhadaeth wreiddiol yr hoffem ddatblygu ymhellach yw cefnogaeth i'r gymuned o ran darparu mynediad i ffynonellau cyngor. Yn ddiweddar rydym wedi creu ffolderi gyda gwybodaeth am sut i gael hyd i gyngor; mae angen i ni fonitro eu defnydd a pharhau i wirio gyda'r gymuned pa gefnogaeth mae arni ei hangen.

➔ Mae gennym boblogaeth amrywiol ac anelwn at gynnig darpariaeth amrywiol ar gyfer pawb o fewn ein cymuned wledig Gymreig.

Dymunwn gynyddu cefnogaeth i bobl sy'n heneiddio ac i'r rhai sydd mewn perygl o gael eu hynysu, a dymunwn fod yn gyfeillgar i dementia. Bwriadwn ddatblygu mwy o hyfforddiant a mynediad i bobl sydd ar hyn o bryd wedi eu cau allan o wasanaethau digidol. Mae'r cynlluniau yma yn golygu bod angen i ni gynnal lefel ein cefnogaeth wirfoddol ac i sicrhau ein bod yn cynnig amgylchedd croesawgar.

9. Gwaith estyn allan

O ganlyniad i'n llwyddiant yn ennill gwobrwyon a'r cyhoeddusrwydd yn sgîl hynny dros y 6 mlynedd diwethaf rydym wedi derbyn nifer gynyddol o ymholiadau am gyngor gan fudiadau allanol. Hyd yn hyn mae hyn wedi digwydd yn *ad hoc*: dymunwn barhau gyda hyn tra'n meddwl am y ffyrdd gorau o gynnig cefnogaeth allanol yn fwy cyson.

➔ Dymunwn hefyd barhau ein cefnogaeth i elusennau lleol a, ble gallwn, gyfrannu at brosiectau perthnasol tu allan yr ardal fel y cynllun rhyngwladol i efeillio toiledau.

Bwriad y ddogfen hon yw cynnig fframwaith ar gyfer penderfyniadau ond mae'n ddeinamig ac os bydd amgylchiadau yn newid fe'i hadolygir gan y Bwrdd.

Atodiadau

1. Rhestr o wobrwyon hyd yn hyn
2. Rhestr o wasanaethau a gynigir ar hyn o bryd